funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Rhagfyr/Ionawr 2006

CD Cerddoriaeth y Nadolig

Bydd llawer ohonoch yn cofio prosiect CD Nadolig Oldford y llynedd, gydag Ysgol Babanod Oldford, Jack a Dulcie Peatroy a Chantorion yr Amwythig, ynghyd ag aelodau o Gymuned Oldford. Roedd y CD yn llwyddiant mawr, ac o ganlyniad i werthu'r CD, prynwyd eitem o offer adfywio sef peiriant 'Pwff Newyddenedigol' a gyflwynwyd i Uned Ofal Arbennig Babanod Ysbyty'r Amwythig ym mis Gorffennaf eleni.

Yn y llun gwelir Hazel Hicks, sy'n byw ar yr ystâd, Yvonne Jones, Pennaeth Ysgol Babanod Oldford a Brendan McWhinnie, o gymdeithas Tai Clwyd Alyn yn cyflwyno'r peiriant i Nyrs Staff Francis Davies.

Hefyd yn y llun ar y dde mae Francis gyda Tony Skeggs, o Gyswllt Celf oedd yn gyfrifol am hwyluso a chynhyrchu'r CD.

Mae CD eleni yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd a bydd ar werth ddechrau mis Rhagfyr. Bydd yr holl elw eleni yn cael ei roi unwaith eto i Uned Ofal Arbennig Babanod Ysbyty'r Amwythig. Diolch o galon i bawb am brynu CD y llynedd, a gobaith y tîm cynhyrchu yw y bydd CD eleni'r un mor llwyddiannus. Bydd copïau o'r CD ar gael o swyddfa Clwyd Alyn, Ysgol Babanod Oldford ac aelodau'r gymuned.

Cystadleuaeth Liwio

Wyt ti rhwng 0 ac 16 oed, ac yn mwynhau lliwio? Yn y rhifyn hwn o Lais Oldford, mae cystadleuaeth liwio'r Nadolig, felly beth am roi cynnig arni a cheisio ennill gwobr? Y dyddiad cau yw dydd Mercher 20fed Rhagfyr. Dewch â'ch lluniau i Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf neu Swyddfa Clwyd Alyn a chofiwch ychwanegu eich manylion er mwyn inni allu cysylltu â chi os byddwch yn ennill!



Yn y rhifyn hwn

CD Cerddoriaeth y Nadolig 2006 1

Digwyddiadau 2

Chwilio am drysor? 3

Gemau'r Nadolig 4

Dathlu pen-blwydd 5

Rysáit... 6

Gweler Tud 2 am fanylion y Disgo!!!

Gemau'r Nadolig i'ch herio ar dudalen 4!

Beth am roi cynnig ar y rysait ar dudalen 6?

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

Gŵyl Gaeaf Y Trallwng

Y Get Going Gang a Chwarae Mynediad Agored yn cyflwyno DIWRNOD HWYL Y NADOLIG

Yng Ngŵyl Gaeaf Y Trallwng

Dydd Sadwrn 2ail Rhagfyr

10.00yb - 3.00yp

Bydd pawb rhwng 8 a 14 oed yn cael cyfle i wneud Cerdyn Nadolig a Chracyr Nadolig am ddim

Hefyd bydd *Tombola gyda'r elw yn mynd i'r Get Going Gang!!!*

Dewch draw i ymuno yn hwyl yr ŵyl!

Rhaid i blant dan 8 fod yng nghwmni oedolyn

communities first cymunedau yn gyntaf

Bydd Cymunedau'n Gyntaf Oldford yn trefnu stondin yn Neuadd y Dref ar ddydd Sadwrn 2ail Rhagfyr rhwng 10.00yb a 3.00yp. Os hoffech ddysgu mwy am ein gwaith, dewch heibio am baned cynnes a tharten Nadolig!

Digwyddiadau

Cynhelir CCB Cymunedau'n Gyntaf Oldford ar ddydd Iau 21ain Rhagfyr am 11.30yn yng Ngwesty'r Royal Oak.

Croeso i holl Drigolion Oldford !!!

Cynhelir CCB Cymdeithas Tenantiaid Oldford am 7yh Nos Lun 18fed Rhagfyr yn Ysgol Babanod Oldford.

Croeso i holl Denantiaid Clwyd Alyn!

Awydd dawnsio??? Cynhelir Disgo i Bobl Ifanc 8—16 oed yng Nghaban y Sgowtiaid Nos Sadwrn 16eg Rhagfyr. Pris mynediad—£1 a bydd lluniaeth ar werth!

Cofiwch am Ŵyl Gaeaf Y Trallwng — Dydd Sadwrn 2ail Rhagfyr!!!

Y Get Going Gang a Diwrnod o Hwyl Calan Gaeaf Mynediad Agored

Cynhaliwyd diwrnod gwych yn y prif fan chwarae yn ystod hanner tymor. Daeth 62 o blant yno, a rhoi cynnig ar wneud pob math o grefftau'n gysylltiedig â Chalan Gaeaf, gan gynnwys gwe pry cop, masgiau, hetiau a chacennau brawychus! Cafwyd hwyl fawr gan bawb! Diolch i'r holl blant am ddod ac i bawb am helpu.

Mannau Chwarae

Erbyn hyn, mae'r mannau chwarae wedi'u gorffen, ac mae Arolygydd Annibynnol wedi'u harchwilio. Bydd peth gwaith tirlunio'n digwydd y flwyddyn nesaf, a bydd y chwyn yn derbyn triniaeth briodol. Ar ôl gwneud y gwaith yma, y gobaith yw trefnu seremoni i agor y mannau chwarae.

Mwynhech eich mannau chwarae, ond cofiwch ofalu amdanynt.

Gwariwyd cyfanswm o dros £46,000 arnynt!

Awydd chwilio am drysor claddedig?

Yn sgil ymarfer ymgynghori gyda'r bobl ddaeth i Ddiwrnod o Hwyl Oldford eleni, mae grŵp bach o drigolion cymuned Oldford dan arweiniad Tony Pinchera, 8 Sgwâr Heulwen, Ystâd Oldford, wrthi'n sefydlu Clwb Datgelu Metel.

Yr enw ar y grŵp yw "The Oldford Force Team". Y gobaith yw y bydd y gweithgaredd hwn yn denu aelodau o nid yn unig cymuned Oldford, ond hefyd cymuned ehangach Y Trallwng,(gan gynnwys plant dros 8 oed), sydd â diddordeb mewn datgelu metel, neu sydd am ddysgu mwy am y gweithgaredd hwn.

Ar ôl ei lawn sefydlu, y bwriad yw y bydd y grŵp yn gallu prynu nifer o ddatgelyddion metel i'w defnyddio gan y bobl sydd am fod yn rhan o'r gweithgaredd. Mae'n fwriad hefyd gan y grŵp i drefnu sesiynau hyfforddiant cychwynnol a sesiynau ymwybyddiaeth i bobl fydd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn am y tro cyntaf.

Ceir mwy o fanylion mewn rhifynnau Llais Oldford yn y dyfodol. Yn y cyfamser, cysylltwch â Tony yn y cyfeiriad uchod.

Chwilair y Nadolig

E	T	H	E	F	I	R	S	T	N	O	E	L	F
R	E	G	N	A	M	A	N	I	Y	A	W	A	R
S	T	F	J	K	E	A	C	H	R	M	W	I	O
WH	I	T	E	C	H	R	I	S	T	M	A	S	
E	G	G	K	L	P	U	O	T	F	C	D	H	T
S	I	L	E	T	J	L	F	R	Y	U	H	U	Y
D	N	J	L	T	K	T	I	J	M	C	F	H	H
S	T	H	K	L	T	R	E	K	Y	G	J	P	W
G	N	D	E	C	K	T	H	E	H	A	L	L	S
F	E	D	H	J	T	H	E	F	E	H	L	O	F
S	L	K	T	K	F	D	H	M	L	N	C	D	D
J	I	N	G	L	E	B	E	L	L	S	S	U	J
D	S	D	H	K	L	T	G	E	H	T	D	R	E

Away In A Manger

Deck The Halls

Frosty

Jingle Bells

Rudolph

Silent Night

The First Noel

White Christmas



Gemau'r Nadolig





Christmas Crossword Puzzle

Across

1. I saw Mummy _____ Santa Claus.
4. Many people put these on Christmas trees and the outside of their house (but not before electricity).
6. The night before Christmas.
8. Santa's lead reindeer when it is foggy.
9. You should leave _____ and cookies for Santa.
11. The carol that you sing when you are decorating the house.
14. December 25 is _____.
15. Silver and _____.
16. A famous snowman.

Down

2. Another name for Father Christmas.
3. Don't stand under this if you don't want to be kissed.
5. The _____ were hung by the chimney with care.
7. The colour of Santa's outfit.
10. Reindeer look forward to this treat that

Cystadleuaeth Cerdyn Nadolig

Beth am ddylunio eich Cerdyn Nadolig eich hunan—ac ennill gwobr efallai! Bydd pedwar categori oedran ar gyfer y beirniadu, dan 5oed, 6-11 oed, 12-16 oed ac 17 a throsodd. Ewch â'ch cardiau i Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf neu i Swyddfa Clwyd Alyn erbyn dydd Mercher 20fed Rhagfyr, a chofiwch roi eich manylion ar y cefn, gan gynnwys eich grŵp oedran. Dewisir yr enillwyr yn CCB Cymunedau'n Gyntaf ar 21ain Rhagfyr, a byddwn yn cysylltu â'r enillwyr yn fuan wedyn. Pob lwc!

Gwasanaeth Cymorth i'r Teulu gan Hafal

GRŴP CYMORTH NEWYDD I OFALWYR YM MAES IECHYD MEDDWL

Mae'r grŵp hwn wedi cychwyn, yn y Drenewydd i gychwyn, i bobl sy'n cefnogi rhywun sy'n dioddef o Salwch Meddwl Difrifol. Gellir trefnu cludiant i unrhyw un yn sir Drefaldwyn sydd am fynd i'r grŵp. Mae'r grŵp wedi dewis bod yn gyfuniad o gefnogaeth anffurfiol i'w gilydd a fforwm ar gyfer hyfforddiant a gwybodaeth. Ar hyn o bryd lleolir y grŵp yn y Drenewydd, gyda phosibilrwydd o 'deithio' o gwmpas sir Drefaldwyn. Y nod tymor hir yw sefydlu grwpiau llai yn seiliedig ar ardaloedd mwy lleol.

Mae'r grŵp yn cwrdd ar 4ydd dydd Mercher bob mis mewn lleoliadau gwahanol. Cysylltwch â Julie Cannon, Gwasanaeth Cymorth i'r Teulu gan Hafal am fwy o wybodaeth ar: 01686 626 749

Dewiswch yr Undeb Credyd am Nadolig Llawen!

Yn lle cael eich siomi gan gwmniau megis Farepack gallwch gynilo ar gyfer y Nadolig trwy Glwb Nadolig yr Undeb Credyd. Trwy gynilo ychydig o bunnoedd bob wythnos, bydd y cyfanswm yn tyfu a gallwch gael yr arian allan mewn pryd i wneud eich siopa Nadolig. Mantais yr Undeb Credyd yw bod eich arian yn ddiogel ac mae pob punt yn dod nôl i chi. Hefyd fe gewch chi yswiriant ar eich cynilion, ac oherwydd eich bod yn derbyn arian parod, gallwch ei wario unrhyw le. Gallwch gynilo gyda'r Undeb Credyd yn: Swyddfa Clwyd Alyn, Oldford ar ddydd Iau4yp - 6yh, Tŷ Eglwys Y Trallwng ar ddydd Sadwrn 10yb - 12yp, Ysgol Maesydre ar ddydd Iau 8.45yb - 9.00yb, Ysgol Oldford ar ddydd Gwener 8.45yb - 9.00yb ac yn Ysgol Gungrog ar ôl y Nadolig. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rina ar 01686 623741.

Cadetiaid y Fyddin Powys

Mae 2006 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Gadetiaid y Fyddin ym Mhowys, gyda'r Cadetiaid yn ennill Cystadleuaeth Sgiliau Arfau Cymru, Cystadleuaeth Reiffl Targed Cymru, Cystadleuaeth Cymorth Cyntaf Cymru a hefyd yn cadw Tlws i Gadetiaid y Sir Fuddugol am y degfed flwyddyn yn olynol. Rydym ar agor ar nos Fawrth rhwng 7yh—9yh yng Nghanolfan y Cadetiaid ynYr Arfdy, Stryd y Nant. Estynnir croeso i fechgyn a merched ifanc 12 oed (sydd hefyd ym mlwyddyn 8 yn yr Ysgol Uwchradd) hyd at 18 mlwydd a 9 mis oed. Ymysg y gweithgareddau sydd ar gael mae saethu, sgiliau arfau, cymorth cyntaf, darllen mapiau, hyfforddiant DOE, hyfforddiant gweithgareddau antur, chwaraeon, crefftau dril a maes. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â'r Capten Paul Jones ar 01588 638765

PEN-BLWYDD HAPUS!!

Pen-blwydd hapus i Carl ar 4ydd Ionawr, cariad oddi wrth Mam a Dad, Jayne, Sharon, Sarah a Laura xxx

Pen-blwydd hapus i Ewythr Carl ar 4ydd Ionawr, oddi wrth Keely, Chloe, Harley, Shannon, Izzy, James ac Ella xxx

Pen-blwydd hapus ar 27 Ionawr i Sheila oddi wrth griw'r OTA

Pen-blwydd hapus i Bobby ar 6ed Rhagfyr, cariad oddi wrth Jan, Alun, Jodie, Adam a Jack

Pen-blwydd hapus Bobby ar 6ed Rhagfyr, cariad gan Sian

Pen-blwydd hapus Dad ar 20fed Rhagfyr, cariad gan Tia

Pen-blwydd hapus Lee ar gyfer 20fed Rhagfyr, cariad gan Ellen

Pen-blwydd hapus Jack ar 6ed Ionawr, cariad oddi wrth Mam, Dad, Jodie ac Adam

Pen-blwydd hapus Liz ar gyfer 14 Ionawr, oddi wrth OTA a Hannah a Mandy xxx

Chwaraewr CD/radio casét cludadwy ar werth £15. Hefyd, pecyn crafu/cymysgu CD £15—ffoniwch 555269

Strewsel Briwfwyd

Mae hon yn rysáit syml iawn. Mae'n cymryd amser i wneud tartenni Nadolig – y rholio a thorri yn cymryd amser pan fo cymaint o bethau eraill i'w gwneud adeg y Nadolig. Mae'n llawer haws gwneud un tarten enfawr, ac yna ei thorri'n ddarnau. A'r newyddion da—'dach chi'n cael mwy o friwfwyd hefyd!

Cynhwysion

i'r crwst:

175g (6owns) o flawd plaen gwyn

1½ llwy de o siwgr eisin, wedi'i ridyllu

100g (4owns) o fenyn

Ychydig o ddŵr oer

(Neu 55g (1pwys) o grwstyn crwst brau melys parod)

I'r llenwad:

Tua 500g (1pwys) o friwfwyd (2 jar)

i'r Gaenen:

75g (3owns) o flawd codi gwyn

40g (1½ owns) semolina

40g (1½ owns) o siwgr mân

75g (3owns) o fenyn

Dull

Cynheswch y popty hyd at 200oC/400oF/Nwy 6.

Bydd angen tun 12" x 9" (30 x 23cm).

ilr crwst:

Mesurwch y blawd a'r siwgr eisin i fowlen, a rhwbiwch y menyn nes bo'r cymysgedd yn debyg i friwsion bara bras. Ychwanegwch ddigon o ddŵr i wneud toes cadarn – os byddai'n well gennych, gallwch wneud hyn mewn prosesydd bwyd. Rholiwch y crwst i siâp hirsgwar, ychydig yn fwy na'r tun, yna gosodwch y crwst yn y tun i leinio'r gwaelod a'r ochrau. Tacluswch y crwst i ymylon y tun, a llenwch unrhyw fylchau os oes angen. Yna taenwch y briwfwyd dros y crwst yn gyfartal.

I'r gaenen:

Rhowch y blawd, y semolina a'r siwgr mân mewn bowlen. Toddwch y menyn, a gadael iddo oeri ychydig, yna cymysgwch gyda'r cynhwysion sych i wneud toes. Os oes gennych amser, gadewch y cymysgedd i oeri am 30 munud, wedyn bydd yn haws i'w ratio. Gratiwch y toes gyda gratiwr bras a thaenwch hyn yn gyfartal dros y briwfwyd. Pobwch yn y popty cynnes am 20-25 munud nes ei fod yn euraidd. Torrwch i 16 o ddarnau cyfartal, a'i weini'n gynnes gyda hufen neu fenyn brandi. I arbed mwy fyth o amser, gellir paratoi'r Strewsel hyd at bythefnos ymlaen llaw a'i rewi.

Gwyliau Nadolig

Gwyliau Ysgol: 20 Rhagfyr hyd at 3 Ionawr

Bydd sbwriel yn cael ei gasglu fel arfer

Bydd Meddygfa'r Trallwng ar gau ar ddydd Nadolig a Gŵyl San Steffan.

NADOLIG LLAWEN IAWN ODDI WRTH GYMDEITHAS TENANTIAID OLDFORD

Cyfarchion yr Ŵyl oddi wrth bawb yn swyddfa Clwyd Alyn.

Nadolig llawer oddi wrth bawb yn y Get Going Gang!

Nadolig llawer a Blwyddyn newydd dda oddi wrth staff Cymunedau'n Gyntaf